Sharon Atkins

Pam ddylai aelodau CGGC bleidleisio drosof i fod yn Ymddiriedolwr?

Rwyf wedi gweithio yn y trydydd sector ers dros 14 o flynyddoedd. Ar hyn o bryd, fi yw Rheolwr Adnoddau Dynol / Ysgrifenyddes Cwmni Ffydd mewn Teuluoedd – mudiad cymorth i blant, oedolion a theuluoedd sy'n gweithio yn ardaloedd difreintiedig Abertawe ac Aberhonddu. Yn ystod y cyfnod hwn, rwyf wedi sylweddoli bod cydweithio ag eraill yn allweddol i ymateb i dirwedd fyth-newidiol ac i roi'r cymorth gorau sydd ar gael i'n buddiolwyr.

Rwy'n eistedd ar Fforwm Gwerth Cymdeithasol Gorllewin Morgannwg ac yn rhoi mewnbwn i'r grŵp llywio, ynghyd â bod yn aelod o Fudiad Cymunedol Cymru. Rwy'n gobeithio y gellir cryfhau rhwydweithiau ymhellach ac annog mwy o gydweithio er mwyn sicrhau y gall y sector gwirfoddol ffynnu, dod yn fwy gwydn a chael cymaint â phosibl o effaith mewn modd mwy effeithiol.

Mae gennyf brofiad helaeth o reoli busnes (rwy'n ddarlithydd achlysurol yn yr adran adnoddau dynol), arwain prosiectau, cydlynu gwirfoddolwyr a datblygu strategaethau. Rwy'n arbenigo mewn rheoli ansawdd a data, llywodraethu, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI) a chydymffurfiaeth. Rwyf hefyd yn Llywodraethwr Ysgol (Is-gadeirydd) ac yn Gynghorydd Cymuned, sydd wedi fy ngalluogi i fireinio fy sgiliau cyllid. Rwy'n ymdrechu'n barhaus i ddilyn y newyddion diweddaraf ar bolisïau a diwygiadau cymdeithasol ac yn teimlo bod gennyf y brwdfrydedd, yr egni a'r arbenigedd i gynorthwyo CGGC â'u nodau uchelgeisiol.